

# Mapiau Cymdeithasol Teithiau Cerdded Cynllunwyr Ifanc Cymru

- Caernarfon -

Dilynwch daith o amgylch Caernarfon sy'n tynnu sylw at rai o'r lleoliadau diddorol yn yr ardal yn ogystal â rhai o'r tirnodau pwysig o ran rhinwedd cynllunio.


Mae Cynllunwyr Ifanc Cymru wedi llunio'r daith gerdded hon er mwyn ychwanegu gweithgaredd cymdeithasol at ein harfau yn ystod y pandemig (ac wedi hynny) a'n hannog ni i gyd i fynd allan ac edrych ar y cyfoeth sydd i'w weld mewn rhai o'n hardaloedd lleol.

## Y Print Mân

Wrth fynd ar y daith gerdded hon, gofalwch am eich diogelwch personol a chadwch o fewn unrhyw gyfyngiadau COVID lleol.

The image features a teal background with a central white rectangular area. The teal background is decorated with white dots and abstract shapes, including a large white circle in the top left and a large white shape in the bottom left. The white rectangular area contains the text "Caernarfon" in a white, sans-serif font.

Caernarfon



1. Y Maes / Castle Square
2. Castell Caernarfon Castle
3. Pont Yr Aber
4. Anglesey Arms
5. Porth-yr-Aur / Golden Gate
6. Promenâd / Promenade
7. Eglwys y Santes Fair / St. Mary's Church
8. Doc Fictoria / Victoria Dock
9. Cofeb Llywelyn Ein Llyw Olaf / Memorial Llywelyn ap Gruffudd
10. Stryd y Jêl / Shirehall Street
11. Stryd y Plas / Palace Street
12. Tan-y-Bont / Greengate Street
13. Eglwys Presbyteraidd / Presbyterian Church

# Taflen Ffeithiau

1. Mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau o amgylch Y Maes (y sgwâr) heddiw yn dyddio'n ôl i ddechrau'r 19<sup>eg</sup> ganrif pan ddechreuodd y diwydiant llechi fod ar ei anterth a daeth Caernarfon yn borthladd pwysig. Mae'n rhan o Safle Treftadaeth y Byd ac fe'i dominyddwyd yn flaenorol gan brysurdeb, traffig a rheiliau gwarchod yn atal symudiad cerddwyr, nes i brosiect i wella'r ardal gyhoeddus tua diwedd y 2000au a gyrhaeddodd Rhestr fer Gwobr Dylunio Trefol arwain at wneud y lle yn fwy atyniadol a phosibl ei ddefnyddio i gerddwyr. Roedd Comisiwn Dylunio Cymru yn rhan fawr o adnewyddu'r man cyhoeddus.
2. Yn y 13<sup>eg</sup> ganrif, gwrthododd Llywelyn ap Gruffudd, rheolwr Gwynedd, dalu teyrnged i Edward I o Loegr, gan ysgogi concwest y Saeson o Wynedd. Yn dilyn hyn, adeiladwyd Castell Caernarfon, un o'r caerâu mwyaf a mawreddog a adeiladodd y Saeson yng Nghymru.
3. Adeiladwyd Pont yr Aber ym 1974 i groesi dros Afon Seiont o'r glannau blaen i'r fynedfa Porth Dŵr i ganol Caernarfon ger Castell Caernarfon.
4. Roedd yr Anglesey Arms yn Dŷ Tollau yn wreiddiol yn dyddio'n ôl i oddeutu'r 1730au. Adeiladwyd yn erbyn walïau'r dref ac wrth ymyl Castell Caernarfon. Erbyn hyn mae'n dafarn â golygfeydd ar draws Afon Menai i Ynys Môn.
5. Mae Porth yr Aur yn gaer restredig Gradd I o'r 13<sup>eg</sup> ganrif yng Nghaernarfon sy'n ffurfio rhan o amddiffynfeydd canoloesol Castell Caernarfon. Mae'r tyrau yn rhai crwn dau lawr â murfylchau, yn wahanol i dyrau amlochrog y castell.
6. Mae gwelliannau parth cyhoeddus diweddar a wnaed i'r Promenâd wedi creu man cyhoeddus newydd bywiog sy'n ategu walïau'r dref a oedd yno eisoes a'r cyffiniau.
7. Sefydlwyd yr eglwys yn eglwys y gwarchodlu ym 1307 a chafodd ei ymgorffori yn Walïau'r Dref gan Henry o Ellerton, un o brif seiri'r castell.
8. Adeiladwyd Doc Fictoria yn y 1870au pan arweiniodd y diwydiant llechi ffyniannus at sector llongau ffyniannus hefyd. Erbyn hyn, mae'r adeiladau ar yr ochr gyferbyn yn cadw Archifau Gwynedd, Amgueddfa Forol Seiont II a Galeri, ac yn ganolfan fusnes celfyddydau a chreadigol a agorwyd yng ngwanwyn 2005, gan ennill Gwobr Cynllunio RTPI Cymru yn 2007 a Gwobr RIBA 2005.
9. Ffurfiodd Llywelyn gynghreiriau gwleidyddol a milwrol ag arweinwyr eraill Cymru, gan sicrhau undod y Cymry. Cafodd ei ladd ar faes y gad ym 1282. Arweiniodd ei farwolaeth yn uniongyrchol at sefydlu Caernarfon. Cerflun a gomisiynwyd marwolaeth Llywelyn ym 1282.
10. Carchar yn flaenorol sy'n ffurfio rhan o gasgliad ehangach o adeiladau Cyngor Gwynedd erbyn hyn. Mae'r adeiladau cyfoes o'i amgylch wedi'u cynllunio i ategu eu cyd-destun hanesyddol trwy ddefnyddio deunyddiau traddodiadol ac efelychu nodweddion yr hen dref gaerog fel arcau cerrig a thoeau llechi.
11. Roedd 14 o dafarndai ar Stryd y Plas ar un adeg. Mae llawer o'r adeiladau ar y stryd yn dyddio'n ôl i'r 17<sup>eg</sup> a 18<sup>fed</sup> ganrif, fodd bynnag efallai mai un o'r rhai mwyaf diddorol yw Neuadd y Farchnad fwy diweddar a adeiladwyd ym 1832.
12. Mae arc Tan-y-Bont, ar waelod Greengate Street, yn cynnwys rhannau o'r arc gwreiddiol a arweiniodd o'r Hen Dref i farbican (tŵr ar wahân) gan groesi afon Cadnant sy'n ffos bellach.
13. Dyluniwyd yr eglwys anghydfurfiol Gothig hon â meindwr yn arddull Seisnig cynnar gan Richard Owen ym 1883.